

# Dyfrffyrdd a Bywyd Gwyllt

## Rheoli ein hamgylchedd naturiol

### Cyflwyniad i reoli ein hamgylchedd naturiol

WILDCRU
Wildlife Conservation Research Unit

Canal & River Trust

Glandŵr Cymru
The Canal & River Trust in Wales

Ariennir yn Rhannol gan
Llywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

# Dyfrffyrdd Cymru –
# Prosbectws Amgylcheddol Naturiol


## Rhagair

Fel Cadeirydd Bwrdd Glandŵr Cymru (Ymddiriedolaeth y Camlesi a'r Afonydd yng Nghymru), rwy'n falch iawn ein bod ni wedi paratoi'r Prosbectws cychwynnol hwn ar werthoedd amgylchedd naturiol ein dyfrffyrdd. Rydym ni'n ddiolchgar iawn am gymorth cronfa Buddsoddiad Cyfalaf Seilwaith Gwyrdd Llywodraeth Cymru yn hyn o beth.

Dyma gam cyntaf y gwaith o fynd ati i ystyried y rôl mae amgylchedd naturiol camlesi Cymru yn gallu ei chwarae, ac eisoes yn ei chwarae, yn y dirwedd ehangach. Roedd Glandŵr Cymru ymhlith y cyntaf i arwyddo'r Siarter Datblygu Cynaliadwy ac mae'r dull gweithredu hwn yn gydnaws ag egwyddorion y siarter hwnnw. Hwb arall i'r gwaith yw deddfwriaeth ddiweddar, yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac egwyddorion Datblygu Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.

Mae'r Prosbectws yn gosod y fframwaith ar gyfer gwneud y dull hwn yn rhan annatod o sut caiff dyfrffyrdd eu rheoli. Mae mwy o waith gan Glandŵr Cymru i'w wneud, yn enwedig i sicrhau ymrwymiad ein staff ni'n hunain a chontractwyr sydd eisoes yn gweithio ar ein dyfrffyrdd, a'r cymunedau lleol a phartneriaid sy'n gweithio ochr yn ochr â ni i drawsnewid sut mae cynefinoedd camlesi'n cael eu rheoli a'u gwella.

Dros y flwyddyn nesaf a thu hwnt, bydd y fethodoleg a amlinellir yn y Prosbectws yn cael ei rhoi ar waith gan Glandŵr Cymru ar draws ei ddyfrffyrdd yng Nghymru mewn ymgynghoriad â'n cefnogwyr presennol a, gobeithio, partneriaid newydd sy'n rhannu'n hamcanion. Mae'r gwaith eisoes wedi cychwyn ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu. Mae'r egwyddorion yn gymwys i bob camlas a'n gobaith yw paratoi'r ffordd ar gyfer newid ledled Cymru a thu hwnt.



**Nigel Annett CBE**
Cadeirydd Bwrdd Glandŵr Cymru.

# Cyflwyniad

**1. Gwerth ein dyfrffyrdd mewndirol:**

Er gwaetha'r ffaith eu bod yn artiffisial (neu wedi'u haddasu'n helaeth o leiaf), gall dyfrffyrdd mewndirol wneud cyfraniad sylweddol at adnoddau naturiol er budd y cyhoedd. Dechreuodd bywyd gwyllt ymgartrefu yn y system gamlesi cyn gynted ag y cafodd ei hadeiladu ac mae gwarchod y 'dreftadaeth naturiol' hon, mewn partneriaeth â chymunedau ar lannau ein camlesi ac eraill sydd â diddordeb mewn cadwraeth, yn un o amcanion allweddol Glandŵr Cymru.

Yn ôl eu natur mae camlesi'n cynnwys amrywiaeth o gynefinoedd sy'n gallu bod yn bwysig, nid yn unig yn eu rhinwedd eu hunain, ond hefyd fel coridorau cysylltu. Mae gan ddyfrffyrdd gyfraniad i'w wneud hefyd at sicrhau cydnerthedd y tirweddau y maent yn rhan ohonynt. Mae hyn wedi'i gydnabod a'i adlewyrchu mewn cyhoeddiadau blaenorol, e.e. gan IWAC:

> *Yn ei chyfanrwydd, mae system dyfrffyrdd mewndirol Prydain yn gwneud cyfraniad pwysig at fioamrywiaeth ac at fywyd gwyllt y dŵr yn arbennig. At ddibenion gwarchod natur a sicrhau bod y system yn parhau i fod yn ddeniadol i'w defnyddwyr, mae angen diogelu'r cyfraniad hwn, a'i gynyddu lle bo hynny'n ymarferol.*

A Jacobs :

> *Mae dyfrffyrdd mewndirol Cymru a Lloegr yn cynnig llawer o fanteision; cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae darpariaeth y manteision hyn yn amrywio o un ddyfrffordd i'r llall, gan amrywio o fân fanteision i rai hynod sylweddol.*
>
> *Mae'r manteision sylfaenol yn amrywio o £109,000 y cilometr y flwyddyn i fwy na £730,000 y cilometr y flwyddyn ar gyfer y categorïau allweddol o fanteision.*

Ac mae'n rhan bwysig o'r dull dalgylch o reoli dŵr sy'n cael ei weithredu ar draws y DU drwy dargedau mesurau lliniaru ar gyfer cyflawni Potensial Ecolegol Da (canllawiau GEP gan UKTAG).

Fodd bynnag, nid yw canllawiau UKTAG yn nodi'r union liniaru sydd ei angen ar safle neu'n darparu canllawiau dylunio i osgoi effaith andwyol sylweddol ar ddefnyddiau eraill ac felly yn aml mae yna wahaniaeth barn ynghylch beth y gellid neu y dylid ei gyflawni. Mae hyn yn broblem hefyd gyda Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth traddodiadol.

**2. Dull unigryw Cymru:**

Mae gan Gymru ddull unigryw o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy – fel y'i nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) – sy'n gallu goresgyn yr anawsterau hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r gwaith o ddatblygu'r defnydd o'r dull hwn ar gyfer rheolaeth amgylcheddol o'n dyfrffyrdd mewndirol yn unol â'r nodau a'r dyheadau a gafodd eu datgan gan Glandŵr Cymru yn ein strategaeth 10 mlynedd, i ddechrau creu cynllun gweithredu cenedlaethol i wella amgylchedd a bioamrywiaeth holl gamlesi Cymru ar lefel strategol, gan gyfrannu at strategaethau cenedlaethol Cymru.

Mae dyfrffyrdd mewndirol yn arbennig o addas ar gyfer y dull a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) oherwydd mae natur y camlesi – â'u treftadaeth naturiol, adeiledig a chymdeithasol - a'u dibyniaeth ar fod yn berthnasol ac yn bwysig i bobl leol er mwyn goroesi, yn golygu bod rhaid i waith Glandŵr Cymru fod yn gydnaws ag egwyddorion datblygu cynaliadwy er mwyn llwyddo. Bydd y camau fydd yn cael eu rhoi ar waith yn sgil y prosbectws hwn yn gwella cydnerthedd y rhwydwaith camlesi; gwella a chynnal stociau o gyfalaf naturiol ar lefel optimaidd; diogelu'r manteision economaidd sy'n cael eu darparu gan gamlesi Cymru; ac yn cyfrannu at hyd yn oed mwy o ymwneud gan gymunedau lleol yn y gwaith o reoli a defnyddio eu dyfrffyrdd.

I wneud hyn o fewn egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mae angen i ni:

1) Ddeall y manteision a'r gwerth cynhenid y gall asedau amgylcheddol ein rhwydwaith o ddyfrffyrdd eu darparu; gan gydnabod pa gyfyngiadau a roddir ar wireddu gwerth yr amgylchedd naturiol gan gyfyngiadau ffisegol a defnydd cymdeithasol / economaidd o'r dyfrffyrdd; ac felly nodi pa welliannau allai fod yn ymarferol.
2) Casglu tystiolaeth i bennu cyflwr presennol asedau amgylcheddol penodol dyfrffyrdd a'u cyd-destun ar lefel y dirwedd; i nodi pa welliannau a fydd yn gwneud y cyfraniad gorau posibl at werthoedd a chydnerthedd yr ecosystem.
3) Annog rhagor o gyfranogiad gan randdeiliaid ar ein dyfrffyrdd er mwyn cynnwys partïon â diddordeb yn cynnwys pobl leol ac eraill a fyddai'n barod i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu cynigion a chynlluniau cyflawni.
4) Cynnwys y gwelliannau sydd wedi'u targedu yng ngwaith Glandŵr Cymru, ei bartneriaid ac eraill sy'n gweithio ar gamlesi drwy bennu safonau lleol newydd ar gyfer gwaith cynnal a chadw cyffredin, atgyweirio ac adfer; ac fel rhestr o ddyheadau lle gellir canfod adnoddau a phartneriaid i'w rhoi ar waith yn lleol.
5) Cynnal arolygon ac ymchwiliadau manylach pellach o gynefinoedd a rhywogaethau penodol er mwyn darparu ar gyfer monitro a gwerthuso gweithgareddau yn barhaus ac felly addasu cynlluniau ar y cyd â chymunedau a phartneriaid eraill.

Y canlyniad fydd cynefinoedd sydd wedi cael eu gwella fel eu bod yn y cyflwr gorau posibl, a bydd gan gymunedau lleol y dyhead a'r gallu i helpu i'w cynnal, er enghraifft, drwy gael cymunedau i fabwysiadu camlesi.

Y Prosbectws hwn yw'r cam cyntaf tuag at y newid sylweddol mewn dull gweithredu, sy'n dwyn ynghyd y pedwar gofyniad cyntaf a nodir uchod drwy:

- Nodi pa gynefinoedd sy'n arbennig o bwysig i'n dyfrffyrdd mewndirol; a
- Beth ellir ei wneud fel arfer i wella eu gwerth o fewn y cyfyngiadau ffisegol a gofynion defnyddiau eraill.
- Cyflwyno methodoleg ymarferol ar gyfer arolygu asedau naturiol dyfrffordd fewndirol i ddechrau cynllun; gan ystyried y cyd-destun lleol; gydag
- Enghraifft ymarferol o arolwg a'r gwaith cychwynnol o gynllunio camau gweithredu ar gyfer Camlas Mynwy ac Aberhonddu.

Mae'r Prosbectws yn gosod y fframwaith ar gyfer gwneud y dull hwn yn rhan annatod o sut caiff dyfrffyrdd eu rheoli. Mae mwy o waith gan Glandŵr Cymru i'w wneud, yn enwedig i sicrhau ymrwymiad ein staff ni'n hunain a chontractwyr sydd eisoes yn gweithio ar ein dyfrffyrdd, a'r cymunedau lleol a phartneriaid sy'n gweithio ochr yn ochr â ni i drawsnewid sut mae cynefinoedd camlesi'n cael eu rheoli a'u gwella a bod cysondeb yn y camau gweithredu amgylcheddol ar gamlesi yng Nghymru ar draws y prif randdeiliaid i gyd.



## Glandŵr Cymru -
Y Lanfa, Gofilon, Y Fenni,
Sir Fynwy, NP7 9NY

Ff:0303 040 4040
E: customer.services@canalandrivertrust.org.uk
@GlandwrCymru
www.facebook.com/canalrivertrust

## Canal & River Trust
First Floor North, Station House, 500 Elder Gate,
Milton Keynes, MK9 1BB

Ff:0303 040 4040
E: customer.services@canalandrivertrust.org.uk
@CanalRiverTrust
www.facebook.com/canalrivertrust

Mae Glandŵr Cymru yn gwmni elusennol cyfyngedig drwy warant a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr gyda rhif cwmni 7807276 a rhif elusen 1146792.

Mae'r holl wybodaeth yn gywir wrth argraffu.

Llun y Clawr: Glas y Dorlan